# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2015-2016

Mae adroddiad blynyddol y cynghorydd hwn yn amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **18 Mai 2016.** Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o angenrheidrwydd yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe.

| **Cynghorydd:** | Joe Hale | Adran Etholiadol: | St Thomas |
|---|---|---|---|

**Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth**

Eto, mae wedi bod yn flwyddyn brysur iawn.
Cynaliasom gymorthfeydd ward misol yn y ward yn Neuadd Eglwys St Thomas, Cenhadaeth Gwyn, Eglwys Bae Fabian, Canolfan Gymunedol Port Tennant, a Neuadd Eglwys Illtyd Sant.

Rydym wedi ymdrin â materion ward niferus o ollwng sbwriel a baw cŵn i bryderon sylweddol ynghylch parcio ceir, diogelwch ffyrdd a chynnydd anochel llety myfyrwyr yn y ward. Rydym hefyd wedi mynd i gyfarfodydd rheolaidd â Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant a chynnal cyfarfodydd parhaol â chwmni Morlyn Llanw Bae Abertawe. Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr o gwbl!

Rydym wedi cefnogi llawer o fentrau ward. Yr un fwyaf adnabyddus yw Parc Polly sydd wedi datblygu'n sylweddol a'r unig reswm am hyn yw gwaith caled a chefnogaeth y preswylwyr a oedd eisiau rhywbeth gwell i'w plant a'u hwyrion.

Hefyd, ddiwedd mis Mai, bydd Pafiliwn Parc Jersey'n ailagor sydd wedi'i adfywio ar ôl i GSP (Partneriaeth Adfywio Cymunedau Parc Grenfell, St Thomas, Port Tennant) gamu i'r adwy i gymryd dros y pafiliwn. Rydym bellach yn ystyried cefnogi Canolfan Gymunedol Ashland a'i helpu i ddatblygu.

Rydym hefyd yn gwneud popeth yn ein gallu i wneud ein ffyrdd lleol yn fwy diogel. Mae Heol Foxhole yn dal i fod yn bryder mawr i ni, yn ogystal â chyffordd Maesteg. Rydym yn gwneud popeth yn ein gallu i gael y cyllid angenrheidiol fel y gall ein preswylwyr groesi'r ffyrdd yn ddiogel.

Rydym wedi gwneud rhai gwelliannau ar y cyffyrdd ar Bontydd Tawe ond, rydym yn dal i deimlo bod angen i'r goleuadau cerddwyr fod yn fwy cadarn ac rydym yn chwilio am lwybr o'r system croesi cerddwyr cyfrif i lawr.

Mae'r Tîm PATCH newydd adael y ward felly rydym yn gobeithio y bydd llai o dyllau yn y ffordd am o leiaf ychydig fisoedd. Rydym hefyd yn ddiolchgar am waith caled gweithwyr y cyngor yn y ward sy'n parhau i dorri'r glaswellt, codi sbwriel a cheisio gwneud y ward yn lle braf i weithio a byw ynddi ac ymweld â hi – felly rwy'n tynnu fy nghap iddynt!!

**Adran 2: Presenoldeb y cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor**

Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y cyngor. Mae cynghorwyr hefyd yn gweithredu trwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol o'r adran etholiadol.

Isod dangosir % presenoldeb seiliedig ar aelodaeth pwyllgor:

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Pwyllgor Apeliadau a Dyfarniadau | 1 | / | 1 | 100 | % |
| Pwyllgor Cynghori'r Cabinet ar Fusnes a Gweinyddu | 3 | / | 4 | 75 | % |
| Pwyllgor Cynghori'r Cabinet - Gwasanaethau Corfforaethol | 6 | / | 7 | 86 | % |
| Y Cyngor | 17 | / | 18 | 94 | % |
| Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd | 0 | / | 1 | 0 | % |
| Cyd-bwyllgor Ymgynghorol | 3 | / | 5 | 60 | % |
| Pwyllgor Safonau | 4 | / | 6 | 67 | % |
| Fforwm Cyswllt Myfyrwyr Abertawe | 2 | / | 3 | 67 | % |
| Fforwm Cyswllt Myfyrwyr Abertawe - Partneriaeth Preswylwyr | 1 | / | 1 | 100 | % |
| **CYFFREDINOL** | **37** | **/** | **46** | **80** | **%** |
| | | | | | |
| **Cyfarfodydd Craffu:** | | | | | |
| Panel Ymchwilio Craffu Cynnwys y Cyhoedd | 1 | / | 1 | 100 | % |
| Panel Perfformiad Craffu Gwella Gwasanaethau a Chyllid | 5 | / | 11 | 45 | % |
| Gweithgor Craffu Trechu Tlodi | 1 | / | 1 | 100 | % |
| Gweithgor Craffu Ceffylau Wedi'u Clymu | 2 | / | 3 | 67 | % |
| **CYFFREDINOL** | **9** | **/** | **16** | 56 | **%** |

## Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r cynghorydd

Aelod o'r cyrff allanol canlynol:

Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru ac Amgueddfa Genedlaethol y Glannau.

## Adran 4: Mentrau a gweithgareddau arbennig

Cymerais ran yn y Gweithgor Craffu Arbennig Ceffylau Wedi'u Clymu ac, ar adeg llunio hwn, rwy'n aelod o'r Gweithgor Craffu Trechu Tlodi.

## Adran 5: Dysgu a datblygu

Euthum i'r hyfforddiant canlynol:

22/01/2016 - Hyfforddiant y Pwyllgor Safonau

Rwyf wedi mynd ati i ymwneud ag undebau llafur a gwleidyddiaeth dros y 30 mlynedd diwethaf.
Rwy'n credu bod profiad ynddo'i hun yn f'arwain i fod â barn gytbwys am lawer o faterion sy'n effeithio arnaf fel cynghorydd. Rwy'n credu bod gennyf empathi â phobl weithio o bob oed.

## Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill

Rwy'n mwynhau pob math o chwaraeon, yn enwedig pêl-droed. Pan rwy'n cael y cyfle, rwyf hefyd yn ddarllenwr brwd.
Ac, wrth i mi heneiddio, mae'n debyg bod yr ardd yn fy ngalw.

## Adran 7:Taliadau cydnabyddiaeth i gynghorwyr

Cyflog Sylfaenol: £13,300
Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13266&path=0&LLL=0

# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2015-2016

| |
|---|
| Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma: http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13284&path=0&LLL=0 |

| | |
|---|---|
| **Dyddiad**: | 26.04.2016 |